

**Gwerthusiad o Effeithiolrwydd y Gronfa
Cymunedau Diogelach 2006-2009
(RHIF CONTRACT: 151/2007/08)**

**Cyflwynwyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru
gan Brifysgol Caerdydd, Prifysgol Abertawe,
ac ARCS Ltd**

Crynodeb Gweithredol

Gorffennaf 2009



CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

Dechreuodd y Gronfa Cymunedau Diogelach (SCF) ym mis Mawrth 2003. Ei nod presennol yw cefnogi gweithrediad Strategaeth Troseddwy'r Ifanc Cymru Gyfan (2004), sy'n ceisio lleihau cyfraddau newydd-ddyfodiaid i'r system troseddau ieuenctid ac ail-droseddu. Mae'r canfyddiadau hyn yn codi o werthusiad canol tymor o'r ail raglen ariannu tair blynedd (2006-09).

Yn ogystal â gofyniad i archwilio'r defnydd o ymagweddau tebyg i SARA at weithgareddau a ariennir gan SCF¹, cafodd tri prif nod ymchwilio eu hamlinellu yn y dogfennau comisiynu ymchwil:

"Gwerthuso effeithiolrwydd cyffredinol y cynllun a'r mathau o brosiect sydd yn y cynllun;

Rhoi cyngor i brosiectau i'w galluogi i fod yn fwy effeithiol yn nhrydydd flwyddyn y cynllun;

Gwneud argymhellion ynglŷn â mentrau posibl o natur debyg yn y dyfodol."

Yn nhermau'r tair nod uchod, mae prif ganfyddiadau'r gwerthusiad fel a ganlyn:

1. Effeithiolrwydd y Cynllun a'r Mathau o Brosiect

- SCF yw'r prif ffynhonnell arian sy'n benodol ar gyfer gwaith atal troseddau ieuenctid yng Nghymru. Er bod yna rai ffynonellau arian atal troseddau ieuenctid eraill yng Nghymru, mae'r rhain wedi'u targedu'n benodol at ymyriadau gyda throseddwy'r gwyddys amdanynt neu'r rheiny y credir sydd mewn perygl o droseddu – yn hytrach na gweithio gyda'r boblogaeth bobl ifanc gyfan ('atal sylfaenol').²
- Felly, mae effeithiolrwydd prosiectau atal troseddau ieuenctid ar draws Cymru wrth leihau troseddu ac ail-droseddu yn dibynnu i raddau helaeth ar y cymorth ariannol parhaus a ddarperir gan SCF – ac mae gwaith atal troseddau ieuenctid sylfaenol yn dibynnu ar gymorth SCF yn llwyr.
- Yn bennaf, defnyddiwyd arian SCF i gefnogi dau fath sylfaenol o waith atal troseddau ieuenctid: (1) ymyriadau cyfiawnder ieuenctid sy'n ffocysu ar leihau'r risg y mae troseddwy'r yn ei beri iddyn nhw eu hunain a'u cymunedau; a (2) gweithgareddau dan gyfarwyddyd sydd wedi'u hanelu at bobl ifanc fel ffordd o atal unrhyw 'duedd' tuag at droseddu.
- Yn seiliedig ar hyn, mae SCF yn adlewyrchu'r ffocws yn Strategaeth Troseddwy'r Ifanc Cymru Gyfan (AWYOS) trwy ddwy prif ymagwedd at atal trosedd: (1) targedu a rheoli'r risgiau y mae troseddwy'r ifanc yn eu wynebu; a (2) trwy ymestyn hawliau i'r holl bobl ifanc. Mae'r ddau amcan yma'n gwrthdaro rhywfaint â'i gilydd ac fe adlewyrchir y tensiwn hwn yn y

¹ Meini prawf SARA yw: *Sganiao*: adnabod y broblem yn glir; *Dadansoddi*: dadansoddiad systematig o'r broblem; *Ymateb*: rheoli perfformiad – gan gynnwys manylion dangosyddion perfformiad a thargedau; *Asesu*: gwerthuso effeithiolrwydd yr ymyriad.

² Fel y mae'r termau'n cael eu deall ar hyn o bryd yn y maes atal troseddau, mae "atal sylfaenol" yn gweithredu ar lefel eang i ymdrin â chyflyrau economaidd neu gyflyrau eraill allai, dros y tymor hirach, arwain at ddatblygiad trosedd, mae "atal troseddau eilaidd" yn ffocysu'n fwy penodol ar grwpiau sydd 'mewn perygl' uniongyrchol o droi'n droseddwy'r, ac mae "atal troseddau trydyddol" yn ceisio atal unigolion a nodwyd yn droseddwy'r yn barod rhag troseddu ymhellach.

prosiectau eu hunain.

- Cwmpodd troseddau ieuenctid a gofnodwyd 12% ar draws Cymru rhwng 2002 a 2007. Ar gychwyn y cyfnod hwnnw, roeddd troseddau ieuenctid³ yng Nghymru'n uwch nag yn Lloegr. Fodd bynnag, cwmpodd y gyfradd yng Nghymru o dan y gyfradd yn Lloegr yn 2004-05 ac mae wedi parhau i fod yn is ers hynny. Er bod y gwahaniaeth rhwng y gwledydd yn gymharol fach a ddim yn debygol o fod yn arwyddocaol yn ystadegol, mae troseddau ieuenctid wedi disgyn ychydig yng Nghymru pan fo'r gyfradd yn Lloegr yn codi.
- O gymharu â Lloegr, mae Cymru wedi llwyddo'n arbennig i:
 - Leihau nifer y newydd-ddyfodiaid (FTEs) i'r system cyfiawnder troseddol; a
 - Lleihau nifer yr ail-droseddwr sy'n cyflawni *troedd mwy difrifol*.
- Er nad yw'n bosibl priodoli'r tueddiadau ystadegol hyn yn uniongyrchol i effaith y Gronfa Cymunedau Diogelach, mae'r ymyriadau a ariennir gan SCF yn cynrychioli gwahanol ymagweddau i'r rheiny a fabwysiadwyd yn Lloegr ac maent yn debygol o fod yn rhan o'r 'gymysgedd cymhleth' o ffactorau sy'n esbonio'r canlyniadau dargyfeiriol.
- Bu'n anodd cynnal dadansoddiad o effeithiolrwydd cyffredinol prosiectau SCF wrth leihau troseddau ieuenctid o ganlyniad i gyfyngiadau yng nghronfa ddata prosiectau SCF – yn bennaf y ffaith ei bod yn cofnodi allbynnau (nifer y cyfranogion, disgrifiadau gweithgareddau) yn hytrach na chanlyniadau (e.e. ymataliad troseddu).
- Darganfu elfen astudiaeth achos y gwerthusiad hwn bod monitro ac asesu canlyniadau prosiectau'n gyfyngedig, fel a oedd hefyd yn wir am unrhyw ddefnydd trylwyr o ymagweddau a arweiniwyd gan ddeallusrwydd neu ymagweddau 'datrys problemau' at leihau troseddau ieuenctid. Fodd bynnag, dangosodd yr ymchwil astudiaeth achos hefyd bod peth gwaith o ansawdd uchel iawn yn mynd rhagddo fel rhan o'r rhaglen SCF, sy'n gyson â'r hyn rydym yn ei wybod am arferion da mewn meysydd penodol (e.e. gwaith ymddygiad gwrthgymdeithasol aml-haen, gwaith pontio'r cenhedloedd, gwaith ieuenctid datgysylltiedig), a gyda nodau rheoli risg ac ymestyn hawliau Strategaeth Troseddwr Ifanc Cymru gyfan.

2. Cyngor i brosiectau

Gallai timau prosiect SCF wella'n sylweddol ar y modd y caiff y gwaith o ansawdd uwch hwn ei gydnabod, ei gyfathrebu a'i ledaenu trwy fabwysiadu gweithdrefnau cofnodi ac adrodd yn ôl safonedig a fyddai'n cynnwys manylion canlyniadau prosiectau yn ogystal â'u hallbynnau.

Felly, rydym yn cyngori bod rheolwyr prosiect yn mabwysiadu proses datrys problemau cydnabyddedig ar gyfer cofnodi ac adrodd yn ôl ar weithgareddau prosiectau SCF yn systematig. Byddai hyn yn gofyn am ddarpariaeth hyfforddiant a chymorth i reolwyr prosiect er mwyn iddynt allu llenwi ffurflenni

³ Diffinir fel nifer y troseddau a gyflawnir gan bobl ifanc fel canran o'r boblogaeth ieuenctid.

safonedig ar weithgareddau prosiectau SCF.

Yn niffyg hyfforddiant a chymorth o'r fath, mae rheolwyr prosiect wedi dadrithio â chasglu data ac adrodd yn ôl i'r gronfa ddata SCF bresennol. Mae hyn wedi meithrin gelyniaeth at ymagweddau datrys problemau ac ymagweddau a arweinir gan ddeallusrwydd at atal troseddau, gan gyfaddawdu eu heffeithiolrwydd posibl wrth gyflawni a chynnal gostyngiadau mewn trosedd ac anhrefn ieuencid.

3. Argymhellion ar gyfer Arferion y Dyfodol

- Mae disgresiwn sylweddol wedi'i ddirprwyo i bartneriaethau penodol i gomisiynu prosiectau atal troseddau ieuencid. Mantais hyn yw bod rheolwyr diogelwch cymunedol yn gallu teilwra gwaith atal troseddau ieuencid at gyflyrau lleol penodol ar gyfer trosedd ac anhrefn ieuencid. Fodd bynnag, yn niffyg arweiniad mwy uniongyrchol oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru ar bwrpas SCF, mae yna berygl na fydd y rhaglen yn datblygu y tu hwnt i'w brosiectau brith yn yr ardaloedd hyn.

Er mwyn egluro pwrpas cyffredinol SCF, un awgrym yw gwahaniaethu rhwng gwahanol fathau a phwrpasau gwaith atal troseddau ieuencid – gan ystyried y pum dimensiwn sylfaenol a ganlyn:

1. Y math o waith atal (e.e. 'haenau' sylfaenol, eilaidd a thrydyddol);
 2. Pwrpas y gwaith atal (e.e. ymatal risg a/neu ymestyn hawliau);
 3. Cynulleidfa oedd i'w targedau gan y gwaith atal (e.e. pobl ifanc a 'phawb arall);
 4. Graddfeydd amser ar gyfer y gwaith atal (e.e. ar unwaith, tymor canolig a hir); ac
 5. Targedau ar gyfer y gwaith atal (e.e. unigolion, grwpiau a phoblogaethau)⁴.
- Fe allai arweiniad mwy eglur oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad ar ba gydbwysedd ymdrech y mae'n ei ddymuno ar draws y pum dimensiwn atal troseddau ieuencid helpu i osgoi dryswch ymhlith a thyndra rhwng partneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder ieuencid. Ein hargymhelliad ni yw, er mwyn bodloni Strategaeth Troseddwy Ifanc Cymru Gyfan a'r polisi Ymestyn Hawliau, y dylid talu mwy o sylw i waith atal tymor canolig/hir a dargedir at boblogaethau cyfan o bobl ifanc.
 - Mae cynllunio strategol ar gyfer cymunedau diogelach yn hollbwysig i wireddu'r nodau uchod. Os caiff Gwaith Atal Troseddau Ieuencid a'i bum dimensiwn eu cysyniadu'n gliriach, bydd monitro perfformiad mwy effeithiol yn dilyn.
 - Gallai'r argymhellion a ganlyn alluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella'r broses o wneud penderfyniadau wrth ddethol a monitro ymyriadau o'r fath, gan wella effeithiolrwydd SCF a mentrau eraill yn y dyfodol:

⁴ Cyfeirir darllenwyr at yr adroddiad technegol llawn am ddiffiniad o'r gwahaniaethau gwyddonol hyn.

- Cryfhau monitro a goruchwyliaeth y rhaglen SCF rhwng y ganolfan a'r 22 ardal (gweler para 3.1 isod);
- Gwella atebolrwydd rolau comisiynu Partneriaethau Cymunedau Diogelach (gweler para 3.2 isod);
- Gosod amcanion penodol ar gyfer yr ystod o wahanol ymagweddau at atal troseddau ieuenctid a ddymunir (gweler para 3.3. isod);
- Cynllunio gwerthusiad systematig o waith atal troseddau ieuenctid yn y gymuned (gweler para 3.4 isod), ac;
- Egluro ymagweddau a argymhellir at ddatrys problemau ar lefel strategol – i hwyluso'r broses o dargedu adnoddau'n lleol ac o gasglu a lledaenu gwybodaeth arferion da (gweler para 3.5 isod).

1 Rhagarweiniad

Dechreuodd y Gronfa Cymunedau Diogelach (SCF) yn mis Mawrth 2003. Ei nod bresennol yw cefnogi gweithrediad Strategaeth Troseddwyd Ifanc Cymru Gyfan (2004) sy'n ceisio lleihau nifer y newydd-ddyfodiaid i'r system cyfiawnder troseddol a chyfraddau aildroseddu. Yn ystod 2006-09, mae cyfanswm o £13,473,498 yn cael ei ddosbarthu ar draws y 22 Partneriaeth Diogelwch Cymunedol yng Nghymru – ar gyfer prosiectau sy'n ceisio lleihau trosedd ac anhrefn ieuencid.

Ym mis Ionawr 2008, comisiynwyd Brifysgol Caerdydd, Prifysgol Abertawe ac ARCS Ltd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i "asesu dyluniad, gweithrediad ac effeithiolrwydd y Gronfa Cymunedau Diogelach (2006-09)" ar draws y 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Y nodau penodol a restrwyd yn y ddogfennaeth comisiynu oedd:

- "Gallu rhoi cyngor i gynlluniau a phrosiectau i alluogi'r prosiectau i fod yn fwy effeithiol yn nhrydedd flwyddyn y cynllun;
- Gwerthuso effeithiolrwydd cyffredinol y cynllun a'r mathau o brosiect yn y cynllun"; a
- "Gwneud argymhellion ynglŷn â mentrau posibl o natur debyg yn y dyfodol."

Hefyd, y bwriad oedd bod y gwerthusiad yn archwilio gweithgareddau SCF yn nhermau meini prawf SARA⁵ ar lefel cyffredinol (lle bo archwiliad o brosiect ac adborth ardal mewn perthynas â phenawdau allweddol SARA i gael ei gynnal) ac ar lefel ardal/prosiect, lle'r oedd cadw at ymagwedd SARA i fod i hysbysu'r detholiad o astudiaethau achos i'w dadansoddi'n fanylach (a lle'r oedd y tîm ymchwil i fod i "archwilio'r sail resymegol a'r penderfyniadau a wnaed gyda golwg ar benawdau pwnc SARA" mewn ardaloedd lleol).

Yn fyr, nod y gwerthusiad oedd darparu asesiad canol tymor cadarn o'r cynnydd hyd yma ar lefel cenedlaethol a lleol – gan ddarparu angor i'r argymhellion ynglŷn â siâp a chyfeiriad gwaith atal troseddau ieuencid yn y dyfodol ar draws Cymru.

Roedd y gwerthusiad yn cynnwys pedwar prif gainc o waith:

- **Adolygiad o adolygiadau** – dadansoddiad o adolygiadau presennol o waith ymchwil a llenyddiaeth polisi ar ymyriadau yn y gymuned sydd wedi'u hanelu at bobl ifanc, ac o ymagweddau datrys problemau ('SARA') a fabwysiadwyd mewn gwaith o'r fath;
- **Dadansoddiad o duedd** –cymariaethau hydredol o droseddau ieuencid a nifer y newydd-ddyfodiaid i'r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru ers 2002/3;

⁵ Gweler troednodyn 1, uchod.

- **Dadansoddiad o ddeunydd cronfa ddata SCF** – i grynhoi ac asesu deunydd sydd ar y gronfa ddata rhaglen SCF er mwyn:
 - disgrifio ehangder a chynnydd gweithgarwch a ariennir gan SCF yn genedlaethol,
 - archwilio i ba raddau y mae ardaloedd a phrosiectau unigol “wedi cadw at feini prawf SARA”, ac hefyd
 - disgrifio i ba raddau y mae prosiectau lleol yn cyd-fynd â Strategaeth Troseddwyd Ifanc Cymru Gyfan

- **Gwerthusiad o sampl o raglenni a phrosiectau mewn tair ardal** – ymchwil astudiaeth achos manwl yn Abertawe, Rhondda Cynon Taf a Sir Y Fflint, gyda samplau o 3-4 o brosiectau unigol a ariennir gan SCF ym mhob ardal. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys dadansoddi dogfennaeth a data lleol, cyfweiliadau unigol a grŵp ffocws gyda chynrychiolwyr asiantaethau, trafodaethau grŵp gyda phobl ifanc ar brosiectau, a chyfweiliadau gyda chynrychiolwyr cymunedol.

2 Crynodeb o Ganfyddiadau

2.1 Adolygiad o adolygiadau

Mae gwerthusiad gwyddonol gwaith atal troseddau ieuenctid yn y gymuned ar draws y byd yn ei fabandod o hyd, ac mae hyn yn ei wneud yn anos i adolygwyr lunio casgliadau cyffredinol am effeith ac effeithiolrwydd ymagweddau penodol. Nid yw llawer o ymyriadau cyffredin erioed wedi’u gwerthuso’n iawn, ac nid yw llawer o werthusiadau llwyddianus wedi’u dyblygu digon aml i ddarparu canfyddiadau y gellir eu cyffredinoli. Hefyd, tystiolaeth gyfyng iawn sydd ar gael ar effeithiolrwydd ymagweddau datrys problemau systematig, strategol (gelwir y rhain yn aml yn ymagweddau ‘SARA’) wrth leihau troseddau ieuenctid er, ymddengys bod ymagweddau o’r fath yn addawol ar gyfer y rhaglen SCF yn gyffredinol yn ogystal â phrosiectau lleol ar draws Cymru (oherwydd y ffordd y gall yr ymagweddau hyn annog comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau i adnabod problemau lleol mewn ffordd fwy pendant a systematig, ac i ddylunio a monitro ymyriadau sydd wedi’u teilwra’n agos at natur y problemau a nodwyd).

Mae angen gwerthusiadau mwy cadarn o ansawdd uwch i adeiladu’r sail dystiolaeth o’r hyn sy’n gweithio mewn mentrau atal troseddau ieuenctid yn y gymuned. Yn wir, efallai y bydd angen dulliau gwerthuso newydd er mwyn profi’r prosesau mwy cymhleth, anuniongyrchol y gellir sefydlu newid mewn ymddygiad trwyddynt. Mae angen datblygu technegau sy’n galluogi i brosesau a chanlyniadau ar lefel cymuned gael eu mesur a’u dehongli yn y tymor byr a’r tymor hirach – yn hytrach na dibynnu ar yr hyn allai fod yn ddangosyddion crai (cyn ac ar ôl) o effeithiolrwydd sy’n ffocysu ar ymyriadau unigoledig.

Mae ymgymryd â’r gwerthusiad hwn wedi galluogi’r tîm ymchwil i wneud rhai awgrymiadau cychwynnol am sut y gellid rheoli gwerthusiadau’r dyfodol yn y ffordd fwyaf effeithiol yng Nghymru – allai gosod Cymru ar flaen y gad mewn perthynas â datrys systemau datrys problemau effeithiol ac arloesol yn y maes polisi hwn. Caiff hyn ei drafod yn adran 3.4.

2.2 Dadansoddiad o duedd

Mae'r darlun cyffredinol ar gyfer Cymru yn un o leihad cyffredinol yn nifer y troseddau ieuenctid a gofnodwyd ers 2002 – ar adeg pan fo troseddau ieuenctid yn Lloegr yn tueddu am i fyny. Yn 2003-04, roedd nifer y troseddau a gyflawnwyd gan bobl ifanc (fel canran o'r boblogaeth ieuenctid) yn uwch yng Nghymru nag yn Lloegr. Fodd bynnag, cwmpodd y gyfradd yng Nghymru o dan yr un yn Lloegr yn 2004-05 ac mae wedi parhau i fod yn is ers hynny. Er bod y gwahaniaeth rhwng y gwledydd yn gymharol fach ac yn anhebygol o fod yn arwyddocaol yn ystadegol, mae troseddau ieuenctid yn disgyn fymryn yng Nghymru pan fo'r gyfradd yn Lloegr yn cynyddu.

Hefyd, er bod yna gafeadau pwysig yn gysylltiedig â'r data ystadegol sydd ar gael, mae rhai tueddiadau cymhleth penodol werth eu nodi:

Newydd-ddyfodiaid (FTEs) i'r System Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru

- Bu cwmp cyffredinol yn nifer y newydd-ddyfodiadi i'r System Cyfiawnder Ieuenctid rhwng 2005-06 a 2007-08 yng Nghymru, gyda niferoedd newydd-ddyfodiaid yn cwmpo ym mhob ardal yng Nghymru rhwng 2006-07 a 2007-08.
- Roedd nifer y newydd-ddyfodiaid (fel canran o'r boblogaeth ieuenctid gyffredinol) yn amrywio o 1 – 2% bob blwyddyn yn rhan fwyaf yr ardaloedd – ac eithrio Gwynedd Môn (4%, 2006-07) a Wrecsam (3%, 2006-07).
- Roedd cyfanswm nifer y newydd-ddyfodiaid yng Nghymru yn 2005-06 a 2006-07 y sylweddol is nag yn unrhyw ranbarth arall ar draws Cymru a Lloegr. Mae'r cwmp 14% yn nifer y newydd-ddyfodiaid yng Nghymru rhwng 2005-06 a 2006-07 yn cymharu'n ffafriol iawn â'r cynnydd 7% ar draws Cymru a Lloegr; ac mae'n gwmp mwy nag a fu yn rhan fwyaf y rhanbarthau eraill.

Ailgollfarnu

- Y gyfradd ailgollfarnu 12 mis cyffredinol ar gyfer pobl ifanc ar draws Cymru oedd 42% yn 2002 (o gymharu â 28% yn Lloegr) a 37% yn 2005 (yr un fath â'r gyfradd yn Lloegr).
- Yn 2002, roedd canran yr aildroseddwr a gofnodwyd a gyflawnodd drosedd fwy ddifrifol tua'r un fath yng Nghymru ag yn Lloegr (24% o gymharu â 23%, yn ôl eu trefn), ond erbyn 2005 roedd yn is (16% o gymharu â 22%).

Dengys y dystiolaeth ymchwil gronol ar dueddiadau trosedd bod y prif yrrwyr sy'n gysylltiedig â throseddau ieuenctid yn ddemograffig eu natur (e.e. dosbarthiad newidiol y grwpiau oedran mewn poblogaeth pendol dros amser). Fodd bynnag, y mae hefyd yn glir y gallai gwahanol fathau o ymyriad a pholisi effeithio ar gwmpiau a chynyddau mewn tueddiadau troseddau a gofnodir. Felly, er nad yw'n bosibl priodoli'r duedd am i lawr mewn troseddau ieuenctid yn uniongyrchol i effaith y Gronfa Cymunedau Diogelach, mae'r ymyriadau a ariannwyd gan SCF yn cynrychioli gwahanol ymagweddau i'r rheiny a fabwysiadwyd yn Lloegr ac maent yn debygol o fod yn rhan o'r 'gymysgedd gymhleth' o ffactorau sy'n esbonio'r canlyniadau dargyfeiriol. Byddai'r tîm ymchwil yn awgrymu bod cynllun fel SCF, gyda'i bwyslais ar atal a lleihau, yn debygol o fod wedi cyfrannu at y cwmp cyffredinol hwn er nad ellir profi hyn yn wyddonol.

2.3 Dadansoddiad o Gronfa Ddata Prosiect Ariannu SCF

Ar draws pob Partneriaeth Diogelwch Cymunedol, arian SCF yw y prif ffynhonnell ar gyfer gwaith atal troseddau ieuenctid yng Nghymru, o gymharu ag arian lleihau trosedd ac anhrefn y Swyddfa Gartref ac arian atal un-pwrpas y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Mae gan y Gronfa Weithredu ar Gamddenfyddio Sylweddau (SMAF) gyllideb fwy o lawer na SCF (ychydig dros £22 miliwn yn 2008-09) ac mae wedi'i dargedu'n bennaf at ymyriadau ar gyfer camddefnyddwyr sylweddau presennol (yn hytrach na gwaith ataliol ar gyfer y boblogaeth gyfan). Yn anochel, mae yna rhywfaint o orgyffwrdd rhwng gwaith a ariennir gan SMAF a phrosiectau a ariennir gan SCF, ond roedd archwilio'r mater hwn yn fanwl y tu hwnt i gylch gorchwyl y gwerthusiad hwn.

Mae prosiectau SCF wedi'u targedu at ymagweddau ataliol ar gyfer diogelwch ieuenctid, ymddygiad gwrthgymdeithasol, pobl ifanc yn bod yn boen, trosedd ac anhrefn ieuenctid a chamddefnyddio sylweddau. Mae hyn yn arbennig o drawiadol pan gaiff ei gymharu â chronfeydd lleihau trosedd ac anhrefn y Swyddfa Gartref yn ogystal â'r fenter Cymunedau Diogelach gynharach. Felly, mae gwaith atal troseddau ieuenctid a gwaith hybu diogelwch ieuenctid ar draws Cymru'n dibynnu i raddau helaeth ar y gymorth ariannol parhaus y mae'r SCF yn ei ddarparu.

Graddfa arian SCF

Cymeradwywyd yn agos i £4.3 miliwn gan y Gronfa Cymunedau Diogelach yn y flwyddyn ariannol Ebrill 2006 - Mawrth 2007. Mae hyn yn hafal â chyfartaledd o £1.50 i bob person sy'n byw yng Nghymru neu gyfartaledd o £18 y drosedd hysbysadwy'r flwyddyn honno. Cododd yr arian ar gyfer 2007-08 gyfartaledd o 7% i dros £4.6 miliwn.

Rôl SCF

Arian SCF yw un o bedair prif ffynhonnell arian sydd wedi'u cofnodi yn y gronfa ddata SCF, y rhai eraill yw y gronfa Uned Reoli Sylfaenol (BCU), Y Gronfa Cyfalaf Lleihau Troseddau ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (CRASB) a'r gronfa Refeniw CRASB. Yn 2006-07 a 2007-08, y Gronfa Cymunedau Diogelach oedd y fwyaf o'r pedair ffynhonnell hyn – gan gynrychioli tua 38% o gyfanswm y gwariant ar gyfer 2006-07, gan godi i 42% ar gyfer 2007-08. Y Gronfa Cymunedau Diogelach oedd prif ariannwr prosiectau ieuenctid ac ymyriadau eraill i leihau troseddau ieuenctid gan mai dim ond ychydig o ymyriadau o'r natur yma a ariannwyd gan y tair cronfa arall.

Graddfa ymyriadau a ariannwyd gan SCF

Cafodd 231 o ymyriadau arian SCF yn 2006-07 a chafodd 209 o ymyriadau'r arian yn 2007-08. Roedd nifer yr ymyriadau a ariannwyd ym mhob ardal yn amrywio'n fawr – gan ymestyn o 4 yng Nghasnewydd i 20 yn Abertawe a Bro Morgannwg yn 2006-07; ac o 4 yng Nghasnewydd i 19 ym Mro Morgannwg yn 2007-08.

Lefelau ariannu ymyriadau

Cyfartaledd yr arian SCF ar gyfer ymyriad unigol oedd £18,576 yn 2006-07, gan godi i gyfartaledd o £22,200 yn 2007-08. Bu amrywiaeth sylweddol yn y swm a ariannwyd (gan ymestyn o £500 o £113,000 yr ymyriad yn 2006-07; ac o £286 i

£140,884 yn 2007-08). O gymharu â'r tair cronfa fawr arall, cyfartaledd arian SCF yr ymyriad oedd yr uchaf.

Mathau o ymyriad a ariannwyd gan SCF (2006-07)

Yn 2006-07, y mathau mwyaf cyffredin o ymyriad a ariannwyd gan SCF oedd prosiectau neu ymyriadau ieuencid oedd wedi'u hanelu at gynyddu diogelwch ieuencid (29%), wedi'u dilyn gan fentrau a anelwyd at leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol (24%) a'r rheiny oedd wedi'u hanelu at leihau troseddau ieuencid (19%).

Yn nhermau cyfran yr arian a gafwyd, gwariwyd dros 70% o arian SCF ar: brosiectau ieuencid (26%), mentrau ymddygiad gwrthgymdeithasol (24%) a lleihau troseddau ieuencid yn gyffredinol (21%). Cafodd mentrau cyfiawnder adferol, er eu bod yn ganran fach o gyfanswm yr ymyriadau a ariannwyd gan SCF (6%), eu hariannu'n bennaf gan SCF (89% o gyfanswm ar arian ar fentrau cyfiawnder adferol). Yn fwy cyffredin, roedd mentrau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael eu hariannu gan gronfeydd mawr eraill, yn ogystal â'r Gronfa Cymunedau Diogelach. At ei gilydd, gwariwyd dros £2.1 miliwn (19% o gyfanswm yr arian ar draws y pedair prif cronfa) ar leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn 2007-08.

Mathau o ymyriad a ariannwyd gan SCF (2007-08)

Gwelwyd tueddiadau lled-debyg ar gyfer 2007-08. Fodd bynnag, roedd nifer y prosiectau ieuencid penodol wedi codi i lunio 47% o ymyriadau a ariannwyd gan SCF (o 26% yn 2006-07), gyda chwmp cyfatebol yn nifer y mentrau ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau ieuencid. Cyfran yr arian SCF a wariwyd ar brosiectau ieuencid oedd 38% gyda 23% arall wedi'i wario ar droseddau ieuencid. Roedd mentrau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cyfrif am 18% o arian SCF.

Yn nhermau sut yr oedd ymyriadau a ariannwyd gan SCF yn gweithio gyda phobl ifanc, roedd yna ddau prif fath o ymagwedd: (1) ymyriadau a oedd yn seiliedig ar gyfiawnder ieuencid a (2) gweithgareddau hamdden dan gyfarwyddyd. Roedd y ddau yma'n cyfrif am tua chwarter o gyfanswm y gwariant yr un.

Ar hyn o bryd nid yw'r gronfa ddata SCF yn cynnwys gwybodaeth ddigonol o'r math iawn i allu gwneud casgliadau am arferion da nac am effeithiolrwydd ymyriadau. O ganlyniad, ychydig o gasgliadau y gellir eu gwneud am 'gydweddiad' prosiectau gyda naill ai meini prawf Strategaeth Troseddwy'r Ifanc Cymru Gyfan neu dechneg SARA. Ar gyfer rhai partneriaethau, ymddengys mai dim ond gwaith monitro a chofnodi data didaro ac arwynebol sy'n cael ei wneud. Yn ardaloedd yr astudiaeth achos, nid oedd y gwaith a oedd yn amlwg yn mynd rhagddo a lawr gwlad bob tro'n cael ei adlewyrchu'n llawn yn y gronfa ddata.

Felly, ni fu'n bosibl gwerthuso i ba raddau y mae'r prosiectau a ariannwyd wedi cadw at y meini prawf datrys problemau stratego sy'n gysylltiedig â meini prawf SARA y Swyddfa Gartref. Fodd bynnag, mae rhywfaint o'r deunydd yn y gronfa ddata'n fanwl iawn ac awgrymog, ac yn ein barn ni gellid cryfhau'r defnydd o'r fframwaith bresennol fel bod cyfres o wybodaeth ehangach o ansawdd uwch yn cael ei chasglu am arferion SCF ar draws Cymru.

2.4 Canfyddiadau'r astudiaeth achos

Yn bennaf, nod yr astudiaethau achos oedd darganfod gwersi thematig a chanddynt berthnasedd eang (yn hytrach na 'gwerthuso' effeithiolrwydd prosiectau/ardaloedd penodol). Mae prif ran yr adroddiad yn disgrifio'r astudiaethau achos unigol, ond mae'r adran hon yn amlygu rhai casgliadau troswaol am ddarpariaeth ac effeithiolrwydd prosiectau.

Nid yw monitro a gwerthuso wedi bod yn flaenoriaethau allweddol ar gyfer rhan fwyaf o brosiectau'r astudiaeth achos, ac roedd y prosiectau yn yr ardaloedd hyn yn dueddol o gofnodi ystod cul o wybodaeth yn unig am weithgareddau a chyfranogion. Hyd yn oed mewn achosion lle'r oedd prosiectau'n casglu gwybodaeth fanylach am eu gweithgareddau a'u cynnydd (ac mewn rhai achosion, effeithiau tymor byr), nid oedd prosiectau'n dueddol o gasglu unrhyw fesurau canlyniad 'cyn ac ar ôl' trylwyr na chyson. Er bod peth gwaith o ansawdd uchel iawn yn mynd rhagddo ar lefel prosiect ar hyn o bryd, nid yw llawer ohono'n cael ei adlewyrchu'n ddigonol yn y gronfa ddata SCF nac mewn unrhyw gofnodion ffurfiol eraill. Mae hyn yn bechod mawr oherwydd, er ei fod yn amlwg i'r tîm ymchwil bod ystod o waith a ariennir gan SCF ar lawr gwlad yn llawn yr hyn a wyddys am arferion da yn seiliedig ar ymchwil blaenorol a gwybodaeth o'r llenyddiaeth ehangach, roedd diffyg casgliad gwybodaeth leol ddigonol am weithgareddau o'r fath a'u heffeithiau yn ei gwneud yn anodd i gyfod gwersi perthnasol mewn ffordd y gellid ei rhannu ar draws prosiectau. Felly ni fu'n bosibl pennu effaith prosiectau ac ymyriadau unigol yn systematig mewn unrhyw ffordd drylwyr, wyddonol.

Gallai rheolwyr prosiect SCF adnabod a lledaenu'r gwaith o ansawdd uwch a wneir o fewn y rhaglen SCF yn well pe baent yn mabwysiadu gweithdrefnau cofnodi ac adrodd yn ôl safonedig (a fyddai'n cynnwys manylion canlyniadau prosiectau yn ogystal â'u hallbynnau). Gellid argymhell rheolwyr prosiectau i gofnodi ac adrodd yn ôl ar weithgareddau prosiectau SCF mewn ffordd fwy cyson a safonedig, yn ogystal â'u darparu gydag adborth rheolaidd ar y ffordd y maent yn darparu gwybodaeth eu hunain, ac ar amlinellau'r set ddata SCF cyffredinol a gesglir yn genedlaethol.

Yn niffyg arweiniad ac adborth o'r fath, mae rhai aelodau o staff prosiectau ardaloedd y canolbwyntiwyd arnynt gan y tîm ymchwil wedi dadrithio gyda chasglu a chofnodi data ar y gronfa ddata SCF bresennol. Yn eu tro, gall canfyddiadau o'r fath danseilio ymdrechion i ddatblygu ymagweddau datrys problemau a rhai a arweinir gan ddeallusrwydd at atal troseddau yn fwy cyffredinol, yn ogystal ag at gynhyrchu tystiolaeth ynglŷn ag effeithiolrwydd ymagweddau penodol at atal neu leihau trosedd ac anhrefn ieuencid.

Er bod y sail dystiolaeth sydd ar gael yn gyfyngedig⁶, mae'r themâu a ganlyn yn awgrymu llwyddiant diriaethol a dangosyddion addawol o arferion da ar draws tair ardal yr astudiaeth achos:

⁶ Mae rhai dangosyddion perfformiad procsi o effeithiolrwydd a llwyddiant yn bodoli (e.e.: dangosyddion perfformiad YJB a thargedau lleihau trosedd ac anhrefn y Swyddfa Gartref) ac mae'r rhain yn ddefnyddiol i raddau - ond nid ydynt yn helpu i adeiladu sail dystiolaeth gadarn. At hyn, mae diffyg adnoddau dadansoddol ymhlith y gweithlu yn cyfyngu ar y gallu i ymgymryd â gwerthusiadau cadarn, sy'n golygu y gallai partneriaethau elwa o ddatblygu cysylltiadau gwaith gydag ymchwilwyr.

- Mae llawer o waith wedi'i wreiddio mewn ymdrin â phroblemau ac anghenion lleol;
- Gwelwyd tystiolaeth gyson bod staff prosiectau'n ymroddedig a brwdfrydig;
- Roedd gan lawer o staff y prosiectau'r hyfforddiant a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i weithio gyda grwpiau o bobl ifanc a oedd yn gallu bod yn anodd iawn ar adegau, yn ogystal ag i sicrhau lefelau ymrwymiad a chyfranogiad uchel ganddynt;
- Mae llawer o brosiectau'n ymdrechu'n gyson i ymgynghori â'r bobl ifanc y maent yn eu targedu ac aelodau'r gymuned ehangach.
- Roedd rhan fwyaf o staff y prosiectau'n cydnabod pwysigrwydd ymgynghori er mwyn gwella dyluniad prosiectau, ac er mwyn ymestyn y cwmpas i weithredu a newid (os oedd angen) prosiect yn effeithiol – er y soniwyd weithiau bod cyfyngiadau amser yn cyfyngu ar faint yr ymgynghoriad y gellid ymgymryd ag ef.
- Lle bynnag y bo'n bosibl, caiff prosiectau eu mewnosod yn y gymuned leol ac maent yn ceisio cymryd nodweddion ac anghenion ardaloedd o'r fath i ystyriaeth;
- Mae yna dystiolaeth eang o wasanaethau hyblyg, ymatebol ac unigoledig – nodweddion sy'n gysylltiedig ag effeithiolrwydd prosiect neu raglen yn y llenyddiaeth ymchwil;
- Mae adborth a gasglwyd yn uniongyrchol gan y tîm ymchwil oddi wrth bobl ifanc, cynrychiolwyr cymunedol, a staff prosiectau ac asiantaethau, yn awgrymu bod llawer o waith a ariennir gan SCF yn cael ei groesawu'n frwd yn lleol a'i fod yn llwyddo i gynhyrchu ystod o ganlyniadau positif;
- Mae yna enghreifftiau o waith rhyng-asiantaeth ac o feddwl cydgysylltiedig mewn prosiectau penodol ac mewn rhai achosion ar lefel strategol;
- Mae gofynion blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, sy'n gallu cystadlu'n erbyn ei gilydd, yn glŷn ag atal troseddau ieuenctid a grymuso pobl ifanc yn aml wedi'u cydbwyso'n dda trwy ddarparu "cymysgedd o brosiectau" lleol creadigol.

Mewn rhai ardaloedd mae arian SCF wedi'i fewnosod mewn partneriaethau a strategaethau aml-asiantaeth lleol ac yn aml mae'n rhan hanfodol o drefniadau'r ardal. Felly, mae arian SCF yn cefnogi ac yn cael ei gefnogi gan gronfeydd eraill wrth ddarparu rhaglenni a phrosiectau atal. Mewn ardaloedd eraill, mae yna lai o integreiddio rhwng asiantaethau a ffrydiau ariannu – trefniant sy'n tueddu i wanhau darpariaeth cyffredinol yr agenda atal.

I grynhoi, SCF yw y prif ffynhonnell ar gyfer ariannu gwaith atal troseddau ieuenctid ar draws yr ardaloedd amrywiol yng Nghymru (ar sail tystiolaeth a

gasglwyd yng ngwaith maes yr astudiaeth achos ac ymgynghoriad ehangach gyda chyfranwyr lleol allweddol ar draws Cymru). Darganfu'r gwerthusiad hwn dystiolaeth bod arferion a oedd yn cyd-fynd ag uchelgeisiau cynhwysol a 'dad-droseddoliad' Strategaeth Troseddwr Ifanc Cymru Gyfan ac agendâu polisi Ymestyn Hawliau yn cael eu gweithredu'n dda. Er gwaethaf y sail dystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael mewn perthynas ag atal troseddau ieuenctid yn gyffredinol, ac yn arbennig mewn perthynas â monitro prosiectau SCF yn benodol, ymddengys bod SCF (yn seiliedig ar y tair astudiaeth achos werthuso) yn galluogi ac/neu yn cryfhau gweithrediad ystod o weithgarwch diogelwch cymunedol arloesol a llwyddiannus sy'n ffocysu ar bobl ifanc. Hefyd, amlygodd yr ymchwil astudiaeth achos yr anawsterau y mae rhai cynrychiolwyr lleol yn eu wynebu wrth fabwysiadu ymagweddau cyson at ddatrys problemau ar lefel strategol, er y bu hefyd rhai enghreifftiau nodedig o gynllunio effeithiol ar y lefel hwnnw.

3 Casgliadau a Goblygiadau ar gyfer Arferion y Dyfodol

Er bod casgliadau manwl ynglŷn â chanlyniadau prosiectau a rhaglenni wedi'u cyfyngu gan rai o'r ffactorau y cyfeiriwyd atynt mewn adrannau blaenorol, hoffai'r tîm ymchwil wneud y sylwadau a'r argymhellion a ganlyn:

- Mae prosiectau SCF wedi'u taregdu at faterion ataliol sy'n gysylltiedig â diogelwch ieuenctid, ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddau ieuenctid a chamdddefnyddio sylweddau – yn arbennig o gymharu â chronfa BCU y Swyddfa Gartref a chronfeydd CRASB yn ogystal â'r fenter Cymunedau Diogelach cynharach cyn 2006.
- Felly, mae gwaith atal troseddau a diogelwch ieuenctid ar draws Cymru'n dibynnu i raddau helaeth ar y cymorth ariannol parhaus y mae SCF yn ei ddarparu.
- Bu cwmp sylweddol yn y gyfradd troseddau ifanc yng Nghymru, gyda throseddau ieuenctid a gofnodwyd yn is na Lloegr ers 2004-05.
- Mae yna dystiolaeth bod amrywiaeth o arferion sy'n cyd-fynd ag uchelgeisiau cynhwysol a dad-droseddoliad Strategaeth Troseddwr Ifanc Cymru Gyfan a'r polisi Ymestyn Hawliau yn cael eu gweithredu.
- Dengys dystiolaeth o'r astudiaethau achos bod SCF wedi ariannu ymyriadau priodol sy'n cael effeithiau manteisiol ar bobl ifanc ac ar gymunedau lleol.

Hefyd, mae'r gwerthusiad wedi nodi nifer o argymhellion ar gyfer newid y gellir eu clystyru o dan y penawdau a ganlyn:

3.1 Gwella monitro a goruchwyliaeth y rhaglen SCF

Gellid dyrannu adnoddau pellach i dîm diogelwch cymunedol Llywodraeth Cynulliad Cymru (efallai trwy "frigdorri" cyllidebau presennol) i wella'i allu i fonitro a rheoli perfformiad gweithgareddau yn genedlaethol ar draws y 22 partneriaeth diogelwch cymunedol. Byddai darparu hyfforddiant ac adnoddau i gefnogi monitro perfformiad mwy caeth yn fanteisiol i ystod o wneuthurwyr

polisi, ymarferwyr a dadansoddwyr lleol. Gallai darparu hyfforddiant o'r fath trwy sefydliadau y tu allan i rwydweithiau polisi'r Swyddfa Gartref/Heddlu helpu i greu newid mewn diwylliant lle byddai rheoli perfformiad yn cael ei gymhwyso'n fwy cyson gan wneuthurwyr ac ymarferwyr diogelwch cymunedol a chyfiawnder ieuencid lleol ar draws Cymru. Ni ddylai hyn ganolbwyntio'n unig ar wella rheoli perfformiad ond yn hytrach, fe ddylai helpu i ddatblygu gweithrediad gwasanaethau'n unol ag agendau cyfiawnder cymdeithasol ac ymestyn hawliau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

3.2 Gwella atebolrwydd rolau comisiynu Partneriaethau Diogelwch Cymunedol

Er bod yna nifer o 'gystadleuwyr' posibl ar gyfer rheoli dyraniad cyllidebau SCF yn lleol, mae partneriaethau'n aml yn fregus ac yn anodd eu sefydlu yn y tymor canolig i'r hir-dymor, a dylid ystyried pethau'n ofalus wrth benderfynu beth fyddai'r llwybr orau ar gyfer ariannu. Rydym yn argymhell bod y Partneriaeth Diogelwch Cymunedol yn parhau i fod yn gomisiynydd SCF yn lleol – ond gyda phroses comisiynu llawer mwy trylwyr, aml-asiantaeth ac atebol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol symud oddi wrth gyfeiriadaeth lleihau trosedd ac anhrefn cul (canfyddedig neu wirioneddol) a chymryd deallusrwydd partneriaeth a rennir mwy o ddifrif.

3.3 Pennu amcanion ar gyfer gwaith atal troseddau ieuencid cymunedol

Gellir ystyried gwaith atal trosedd ar draws bum dimensiwn sylfaenol:

1. Math o ataliad ('haenau' sylfaenol, eilaidd a thrydyddol);
2. Pwrpas yr ataliad (ymatal risg a gwella hawliau);
3. Cynulleidfa oedd atal (pobl ifanc a 'phawb arall');
4. Graddfeydd amser ar gyfer atal (ar unwaith, tymor canolig a hir-dymor); a
5. Targedau ar gyfer atal (unigolion, grwpiau a phoblogaethau).⁷

Nid yw'r dimensiynau hyn yn annibynnol ar ei gilydd. Er enghraifft, mae'n bosibl cael strategaeth sy'n ffocysu ar ymyriadau ar unwaith, 'cynnar' gydag unigolion a grwpiau sydd mewn perygl o droseddu sy'n cynnwys y risgiau hyn gan hefyd wella hawliau'r rheiny a dargedir. Mae'r dimensiynau hyn yn dangos yr amrywiaeth eang o gyfuniadau o weithgarwch y gellid ei dyfeisio o dan y pennawd 'atal troseddau ieuencid yn y gymuned'. Ychydig o arweiniad y mae Strategaeth Troseddwr Ifanc Cymru Gyfan yn ei roi am ba bwys i'w roi ar ymyriadau tactegol yn erbyn rhai tymor canolig i hir; neu atal risg yn erbyn ymagweddau hawliau ehangach. Mae hyn yn rhoi disgrisiwn enfawr i bartneriaethau lleol dros ba amcanion y maent yn dymuno eu blaenoriaethu. Mae yna resymau cymhellaidd sy'n esbonio pam fyddai Llywodraeth y Cynulliad yn dymuno rhoi mwy o gyfarwyddyd ar y defnydd o'r Gronfa Cymunedau Diogelach. Yn arbennig, cydnabu nifer o ymatebwyr mae'r gronfa yma, mewn gwirionedd, oedd *unig ffynhonnell un-swydd cymorth ar gyfer gwaith atal troseddau ieuencid*.

⁷ Cyfeirir darllenwyr at yr adroddiad technegol llawn am ddiffiniad o'r gwahaniaethau gwyddonol hyn.

Gallai arweiniad cliriach gan Lywodraeth y Cynulliad ar gydbwysedd yr ymdrech y dylid ei roi ar draws y pum dimensiwn yma o atal troseddau ieuenctid helpu i osgoi dryswch a thyndra rhwng partneriaid diogelwch cymunedol ac atal troseddau ieuenctid. Wrth gwrs, mae pa ddewis y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud ynglŷn â pha fathau o ymyriad, eu pwrpas, graddfeydd amser a thargedau poblogaeth yn un gwleidyddol yn y bon. Ein hargymhelliad ni yw, os mai'r prif nod yw bodloni Strategaeth Troseddwy'r Ifanc Cymru Gyfan a pholisi Ymestyn Hawliau (ar wahân i flaenoriaethau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a Whitehall), dylid rhoi mwy o sylw i waith atal sylfaenol, gyda graddfa amser hirach ac wedi'i dargedu at boblogaethau cyfan o bobl ifanc.

Mae rhan fwyaf y rhaglenni ariannu sydd ar gael i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol (e.e. BCU, CRASB a SMAF) yn ymwneud yn bennaf â grwpiau 'mewn perygl' a throseddwy'r a nodwyd. Mewn cyferbyniad â hyn, SCF yw'r unig raglen ariannu sy'n gysylltiedig â gwaith atal trosedd y gellid ei ddefnyddio i gynllunio gostyngiadau cynaliadwy mewn trosedd ac anhrefn ieuenctid dros y tymor canolig i'r hir-dymor. O ganlyniad, rydym yn dymuno argymhell bod SCF yn cael ei ddefnyddio ar bwrpas i ariannu gwaith ataliol arloesol dros y tymor canolig i'r hir-dymor (e.e. gwaith gyda phlant 8-9 oed fel ffordd o gynllunio gostyngiadau mewn trosedd ac anhrefn pum mlynedd o rwan, pan fydd y garfan hon yn cyrraedd oedolaeth). Dylai ffocws o'r fath gael ei ategu gan bwyslais gynyddol ar ddatrys problemau strategol.

3.4 Gwerthuso gwaith atal troseddau ieuenctid yn y gymuned yn systematig

I helpu Llywodraeth y Cynulliad a phartneriaethau lleol gyda'u huchelgeisiau i wneud y cynllun cenedlaethol a phrosiectau lleol yn fwy effeithiol yn y dyfodol, mae'r tîm ymchwil wedi datblygu matrices (neu 'grid') ar gyfer mapio'r gwahanol waith atal troseddau ieuenctid, gan ddefnyddio'r pum 'dimensiwn' a restrwyd uchod a'r pum 'math'⁸ o waith atal troseddau a ddefnyddir i ddsbarthu ymyriadau yn y gwerthusiad hwn:

1. Gweithgareddau sy'n seiliedig ar hamdden dan gyfarwyddyd
2. Gweithgareddau sy'n seiliedig ar hamdden hunan-gyfeiriol
3. Gweithgareddau sy'n seiliedig ar y teulu
4. Gweithgareddau yn yr ysgol
5. Gweithgareddau sy'n seiliedig ar gyfiawnder ieuenctid

Byddai ymagwedd o'r fath yn darparu ffordd syml o fapio gweithgarwch ar draws Cymru ac o adnabod unrhyw fylchau yn yr ymagwedd ymyrryd. Mae'n darparu matrices ar gyfer cynllunio gwaith gwerthuso, fel y gellir adeiladu dealltwriaeth fanwl, gynhwysfawr a chronnol o ehangder ac amrywiaeth gwaith atal troseddau ieuenctid.

Rydym yn awgrymu y gallai defnyddio matrices o'r fath i strwythuro (1) comisiynu gwerthusiadau i leihau troseddau ieuenctid a (2) gwaith dadansoddi a chofnodi canfyddiadau, helpu i ymdrin â'r prinder presennol o wybodaeth fanwl

⁸ Full definitions of these terms are included in the main report.

mewn perthynas â'r 'hyn sy'n gweithio' mewn gwaith atal troseddau ieuenctid. Hefyd, gallai esbonio ymagweddau a argymhellir at ddatrys problemau ar lefel strategol (neu SARA) yn y maes gwaith hwn helpu wrth dargedu adnoddau'n lleol ac wrth gasglu a lledaenu'r math o dystiolaeth y cyfeiriwyd ati uchod.

3.5 Gwneud y mwyaf o effaith posibl ymyriadau

Gallai deallusrwydd partneriaeth gydgysylltiedig wella effeithiolrwydd ymyriadau lleol, ond efallai y byddai angen y canlynol i gyflawni hyn:

- Creu strategaethau sy'n gwahaniaethu rhwng (1) nodau di-oed, tactegol a (2) cynlluniau tymor canolig i hir-dymor ar gyfer cynnal effaith – er mwyn lleihau risg, trosedd ac anhrefn yn ogystal â gwella hawliau. O fewn yr ymagwedd hon, mae angen diffinio repertoire eang o ymatebion ataliol sy'n ymdrin nid yn unig â throseddwr cyson iawn a throseddwr sy'n flaenoriaeth; ond hefyd gwaith ataliol gyda grwpiau 'mewn perygl'; a gwaith ataliol ar gyfer y boblogaeth gyfan o bobl ifanc. Byddai hyn yn helpu i ddarparu hawliau cyffredinol a fyddai ar gael yn ddiamod ac yn rhad ac am ddim yn y man darparu – yn unol â Strategaeth Troseddwr Ifanc Cymru Gyfan.
- Datblygu cynllun cyflenwi y gall Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ei ddefnyddio i fapio a dilysu (1) cydbwysedd lleol y gwahanol ymyriadau ataliol; a (2) sut y bydd effaith a chanlyniadau'n cael eu hasesu'n systematig. Mae angen i gylchoedd asesu ar lefel prosiect a strategol gael eu hamseru fel y gallent roi adborth yn effeithiol i gynhyrchiad strategaethau atal troseddau ieuenctid. Mae angen ehangu ar ddulliau gwerthuso fel eu bod yn galluogi i bartneriaethau asesu canlyniadau (nid dim ond allbynnau) prosiectau atal troseddau ieuenctid.
- Gwell gallu dadansoddol i bartneriaethau sy'n cysylltu dadansoddwr gyda'r broses o gomisiynu prosiectau ataliol; ac sy'n ymgorffori nid yn unig dadansoddwr yr heddlu ac YOS, ond hefyd yr awdurdodau cyfrifol eraill. Er mwyn ategu'r ymagwedd fwy dadansoddol hon, gallai cymorth gwyddonwr cymdeithasol roi cyngor ar 'fframio' neu gysyniadu problemau trosedd ac anhrefn ieuenctid, a diogelwch ieuenctid ac ansawdd bywyd.